Cylch Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Aberduar Llanybydder; Bethel Silian; Brynhafod Gors-goch;

Caersalem Parc-y-rhos; Noddfa Llanbedr Pont Steffan; Seion Cwrtnewydd

CYFARFODYDD SEFYDLU'R PARCHEDIG D. DENSIL MORGAN DPhil DD

Yn weinidog yr eglwysi uchod

Dydd Sadwrn 12 Ionawr 2019

Yn Aberduar, Llanybydder a Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Estynnir i chi groeso cynnes

Dros y Cylch

Delyth Morgans Phillips
Llety Clyd
Stryd Newydd
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7AL
delyth.gwenllian@gmail.com

01570 422992
07971 375068

OEDFA SEFYDLU yn ABERDUAR AM 1.30 o'r gloch

Organydd: **Rhiannon Lewis**

Llywydd: **Y Parchg Jill Tomos**

EMYN 1 Tôn: Pen yr yrfa

Pa le, pa fodd dechreuaf
foliannu'r Iesu mawr?
Olrheinio'i ras ni fedraf,
mae'n llenwi nef a llawr:
anfeidrol ydyw'r Ceidwad,
a'i holl drysorau'n llawn;
diderfyn yw ei gariad,
difesur yw ei ddawn.

Trugaredd a gwirionedd
yng Nghrist sy nawr yn un,
cyfiawnder a thangnefedd
ynghyd am gadw dyn:
am Grist a'i ddioddefiadau,
rhinweddau marwol glwy',
y seinir pêr ganiadau
i dragwyddoldeb mwy.

O diolch am Gyfryngwr,
Gwaredwr cryf i'r gwan;
O am gael ei adnabod,
fy Mhriod i a'm rhan,
fy ngwisgo â'i gyfiawnder
yn hardd gerbron y Tad,
a derbyn o'i gyflawnder
wrth deithio'r anian wlad.

Roger Edwards

Darllen: **Y Parchg Wynn Vittle**

Gweddi: **Y Parchg Eirian Wyn Lewis**

EMYN 2 Tôn: Mary

Tyrd Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni
a dod d'oleuni nefol;
tydi wyt Ysbryd Crist, dy ddawn
sy fawr iawn a rhagorol.

Llawenydd, bywyd, cariad pur
ydyw dy eglur ddoniau;
dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
ac ennaint i'n hŵynebau.

Gwasgara di'n gelynion trwch
a heddwch dyro inni;
os t'wysog inni fydd Duw Nêr
pob peth fydd er daioni.

Dysg in adnabod y Duw Dad,
y gwir Fab rhad a thithau
yn un tragwyddol Dduw i fod,
yn hynod dri Phersonau;

fel y molianner ymhob oes
y Duw a roes trugaredd,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân:
da datgan ei anrhydedd.

Rowland Fychan

Y Sefydlu yng ngofal **Y Parchg Judith Morris**

Hanes yr Alwad: **Delyth Morgans Phillips**

Ateb yr Alwad: **Y Parchg D. Densil Morgan**

Yr Urdd Weddi: **Y Parchg Aled Davies**

EMYN 3 Tôn: Blaenwern

Iesu, Bugail mawr y defaid,
noddfa'r praidd o oes i oes,
cofia heddiw dy ddiadell,
ffrwyth dy ing ar bren y groes;
tro dy ŵyneb, edrych arnom
yn yr awr sancteiddiol hon
a thosturia wrth dy gennad
sydd yn sefyll ger dy fron.

Derbyn di ei ymgyflwyniad,
gwrando'i addunedau dwys,
cymorth ef wrth ymgysegru
ar dy air i roi ei bwys;
treulio'i oes a wnelo mwyach
deg a glaw, ar faes a thwyn,
i fugeilio praidd dy gorlan,
porthi a choleddu'r ŵyn.

Dangos iddo gudd ffynhonnau
y pleserau sy'n dy waith,
gorffwys wrth y dyfroedd tawel
a gorfoledd pen y daith;
gweld y gorlan fawr dragwyddol
ar y bryniau uchel draw,
gweld dy wedd, Ben-bugail tirion,
a'r coronau yn dy law.

Nantlais

Cyflwyno ar ran Y Coleg Gwyn: **Y Parchg Ieuan Elfryn Jones**

Cyfarchiad ar ran Seion Newydd, Treforus: **Y Parchg Eirian Wyn**

Croesawu ar ran yr eglwysi lleol: **Y Parchg Bill Fillery**

Croesawu gan lywydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion: **Geraint Puw**

EMYN 4 Tôn: Bro Aber

O tyred i'n gwaredu, Iesu da,
fel cynt y daethost ar dy newydd wedd,
a'r drysau 'nghau, at rai dan ofnus bla,
a'u cadarnhau â nerthol air dy hedd;
llefara dy dangnefedd yma nawr
a dangos inni greithiau d'aberth mawr.

Yn d'aberth di mae'n gobaith ni o hyd,
ni ddaw o'r ddaear ond llonyddwch brau;
o hen gaethiwed barn rhyfeloedd byd
hiraethwn am y cymod sy'n rhyddhau:
tydi, Gyfryngwr byw rhwng Duw a dyn,
rho yn ein calon ras i fyw'n gytûn.

Cyd-fyw'n gytûn fel brodyr fyddo'n rhan,
a'th gariad yn ein cynnal drwy ein hoes;
na foed i'r arfog cry' orthrymu'r gwan,
ac na bo grym i ni ond grym y groes:
rhag gwae y dilyw tân, O trugarha
a thyred i'n gwaredu, Iesu da.

John Roberts

Pregeth: **Y Parchg Olaf Davies**

EMYN 5 Tôn: Bridport

Gwn pa le mae'r cyfoeth gorau,
gwn pa le mae'r trysor mawr;
profais flas y bywyd newydd,
O fendigaid, fwynaf awr:
grym y cariad
a'm henillodd innau'n llwyr.

Gwn pwy yw yr hwn a'm carodd,
gwn pwy yw y rhoddwr rhad,
gwynfydedig Fab y nefoedd
ar wael lwch yn rhoi mawrhad:
O ryfeddod:
nerth ein Duw ym mherson dyn.

Gwn pa fodd y prynodd f'enaid,
gwn pa fodd y gwnaeth fi'n rhydd,
dwyn y penyd arno'i hunan,
marw drosof, cario'r dydd:
clod a moliant
fydd yn llanw 'mywyd mwy.

W. Rhys Nicholas

Y Fendith: **Y Parchg Owain Llŷr Evans**

OEDFA BREGETHU yn NODDFA, 5.30 o'r gloch

Organydd: **Alwena Evans**

Llywydd: **Y Parchg D. Densil Morgan**

Gwahoddiad i Addoli: **Côr Corisma**

EMYN 1 Tôn: Crug-y-bar

Fy enaid, bendithia yr Arglwydd,
a chofia'i holl ddoniau o hyd,
maddeuodd dy holl anwireddau,
iachaodd dy lesgedd i gyd;
gwaredodd dy fywyd o ddistryw,
â gras y coronodd dy ben,
diwallodd dy fwrdd â daioni
atseinier ei fawl hyd y nen.

Trugarog a graslon yw'r Arglwydd,
hwyrfrydig i lid i roi lle;
nid byth y mae'n cadw digofaint,
nid byth yr ymryson efe;
fel tad wrth ei blant y tosturia,
mae'n cofio mai llwch ydynt hwy;
O f'enaid bendithia yr Arglwydd,
bendithia yr Arglwydd byth mwy.

Nantlais

Darllen: **Y Parchg Glan Roberts**

Gweddi: **Y Parchg Alwyn Daniels**

EITEM: **Côr Corisma**

EITEM: **Elan Jones**

EMYN 2 Tôn: Dominus Regit Me

Mae eglwys Dduw fel dinas wych,
yn deg i edrych arni:
ei sail sydd berl odidog werth,
a'i mur o brydferth feini.

Llawenydd yr holl ddaear hon
yw mynydd Seion sanctaidd;
preswylfa annwyl Brenin nef
yw Salem efengylaidd.

Gwyn fyd y dinasyddion sydd
yn rhodio'n rhydd ar hyd-ddi;
y nefol fraint i minnau rho,
O Dduw, i drigo ynddi.

Benjamin Francis

Pregeth: **Y Parchg D. Hugh Matthews**

EMYN 3 Tôn: Pantyfedwen

Tydi a wnaeth y wyrth, o Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist i mi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra fwyf byw ond canu'r gân;
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
'rwy'n teimlo'r dwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi yw haul fy nydd, O Grist y groes,
yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;
lle 'roedd cysgodion nos mae llif y wawr;
lle 'roeddwn gynt yn ddall, 'rwy'n gweld yn awr;
mae golau imi yn dy Berson hael,
penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi sy'n haeddu clod, ddihalog Un,
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;
yr wyt yn llaw'r gwacter drwy dy air,
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;
mae melodïau'r cread er dy fwyn,
mi welaf dy ogoniant ar bob twyn;
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
a rhoddaf Iesu, fy mawrhad i ti.

W. Rhys Nicholas

Y Fendith: **Mr T. Gareth Jones**

Ffotograff tu fewn i'r clawr blaen: Tim Jones

Lluniau ar y clawr cefn: Aerwen Griffiths

Rhes uchaf, o'r chwith i'r dde: Seion Cwrtnewydd; Caersalem Parc-y-rhos; Aberduar

Rhes isaf, o'r chwith i'r dde: Noddfa Llanbedr; Bethel Silian; Brynhafod